

# HER BWYD FYD-EANG

## TROSOLWG AR GYFER ATHRAWON

### Cynnwys

- Cyflwyniad
- Nodau'r *Her Bwyd Fyd-eang*
- Strwythur yr *Her Bwyd Fyd-eang*
- Gwahaniaethu
- Grŵp oedran
- Amseriadau
- Amlinelliad manwl o'r adnoddau
- Gwybodaeth gefndir
- Dolenni ac Adnoddau defnyddiol eraill
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Cydnabyddiaethau

### Cyflwyniad

Mae cyflenwadau bwyd byd-eang wedi mwy na dyblu dros y 40 o flynyddoedd diwethaf, ar gyfradd uwch na thwf y boblogaeth. Pam felly y mae tua 3 miliwn o blant yn marw gan eu bod yn llwglyd ac yn sgil clefydau sy'n gysylltiedig â hynny bob blwyddyn?<sup>1</sup> Mae sawl ffactor yn cyfrannu at hyn ond yn y bôn mae'n ymwneud â dosbarthiad adnoddau; mae pobl yn llwglyd oherwydd diffyg adnoddau i fwydo eu hunain yn ddigonol. Mae tua 821 miliwn o bobl yn mynd i'w gwely yn llwglyd bob nos<sup>2</sup> a gall hyn arwain at ddiffyg maethiad. Mae goblygiadau difrifol ynghlwm wrth ddiffyg maethiad gan ei fod yn amharu ar allu pobl i weithio neu fynychu'r ysgol. Mae hynny, yn ei dro, yn amharu ymhellach ar allu pobl i ennill cyflog fel y gallant drechu cylch tlodi.

Mae materion bwyd byd-eang yn gymhleth ac maent yn deillio'n rhannol o fethiant presennol cadwyni cyflenwi bwyd byd-eang i ddiwallu anghenion pobl yn ddigonol. Mae mynd i'r afael â mater cymhleth cadwyni cyflenwi byd-eang yn agwedd allweddol ar waith Oxfam. Credwn fod mynediad at waith boddhaol ar gyflog byw yn llwybr allweddol o tlodi, ac mae'n un o'r ffyrdd gorau o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cynyddol o fewn gwledydd a rhyngddynt. Mae bwyd yn aml yn teithio'n bell o'r cynhyrchydd i'n platiau, ac yn aml mae sawl corff neu berson cyswllt yn ymwneud ag ef sy'n cymryd rhan o'r elw terfynol. Golyga hyn nad yw'r ffermwyr a'r cynhyrchwyr ar ddechrau'r gadwyn gyflenwi ond yn derbyn cyfran fach o werth y bwyd y maent yn ei gynhyrchu nad yw'n aml yn ddigon i sicrhau bywoliaeth foddhaol. Caiff cyfran sylweddol o'r cyflenwad bwyd byd-eang ei gynhyrchu gan ffermwyr ar raddfa fach. Er eu bod yn wynebu nifer o heriau maent yn gynhyrchiol iawn ac mae arnom eu hangen. Mae sawl mantais o ran datblygiad ynghlwm wrth gefnogi ffermwyr ar raddfa fach o fewn y system bwyd byd-eang gan gynnwys sicrhau gwell diogelwch bwyd ar gyfer cymunedau mwy tlawd.

<sup>1</sup> [data.unicef.org/topic/nutrition/malnutrition/](http://data.unicef.org/topic/nutrition/malnutrition/)

<sup>2</sup> [www1.wfp.org/zero-hunger](http://www1.wfp.org/zero-hunger)



Mae Oxfam yn gweithio gyda chymunedau ledled y byd i'w cefnogi i fynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu a gwella ansawdd eu swyddi a'u bywoliaeth. Mae Oxfam hefyd yn herio arweinwyr y byd i gymryd camau mwy uchelgeisiol yn erbyn cadwyni cyflenwi byd-eang annheg cyfredol. Cred Oxfam y gellir cyflawni system fwy cynaliadwy drwy wneud y canlynol:

- Gofyn i Lywodraethau symud isafswm cyflog tuag at gyflogau byw i bob gweithiwr ac i fynd i'r afael â llafur gorfodol anghyfreithlon mewn gweithleoedd.
- Gofyn i gwmnïau dalu cyflog byw i'w gweithwyr.
- Trefnu bod gweithwyr yn cael eu hyfforddi ar eu hawliau a'u cefnogi i wella ansawdd eu swyddi.
- Annog defnyddwyr i ofyn beth mae cwmnïau'n ei wneud i sicrhau bod eu gweithwyr yn cael cyflog byw a'u bod yn cael eu trin yn deg.

### **Nodau'r Her Bwyd Byd-Eang**

- Gwella dealltwriaeth o'r system bwyd byd-eang a dosbarthiad anghyson adnoddau.
- Datblygu ymwybyddiaeth ac empathi tuag at bobl a chymunedau yr effeithir arnynt yn negyddol gan y ffordd y mae'r system fwyd byd-eang yn gweithredu.
- Datblygu dealltwriaeth o gadwyni cyflenwi byd-eang a'n rôl ein hunain fel defnyddwyr o fewn y system.
- Ystyried gwahanol gamau y gall unigolion, cymunedau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau eu cymryd i weithio tuag at system fwyd byd-eang deg a chynaliadwy.
- Cefnogi athrawon i fodloni gofynion y ddaearyddiaeth (astudiaethau cymdeithasol yn yr Alban) a chwricwla cenedlaethol Lloegr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

### **Strwythur yr Her Bwyd Byd-Eang**

- Cynlluniau chwe sesiwn.
- Dwy sioe sleidiau.

Yn ddelfrydol, bydd dysgwyr yn cwblhau pob un o'r chwe sesiwn. Fodd bynnag, mae'r adnoddau'n hyblyg ac wedi'u strwythuro i alluogi athrawon i greu teithiau dysgu personol i'w dysgwyr. Gall athrawon benderfynu hepgor rhai sesiynau a/neu weithgareddau yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael a gwybodaeth, dealltwriaeth ac anghenion dysgu presennol eu dysgwyr. Gall hefyd fod yn briodol rhannu'r gweithgareddau mewn rhai sesiynau dros fwy nag un wers.

Mae pob sesiwn yn dechrau gyda throsolwg ac yn cynnwys amcanion dysgu, deilliannau dysgu, cwestiynau allweddol a chysylltiadau cwricwlaidd. Darperir gweithgareddau a awgrymir ynghyd ag amseroedd bras. Mae unrhyw daflenni adnoddau a gweithgareddau wedi'u cynnwys yng nghynllun y sesiwn.

### **Sesiwn 1: Pam y mae pobl yn llwglyd?**

- Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o raddfa'r argyfwng byd-eang ac yn trafod ystyr rhai termau allweddol a ddefnyddir i siarad am faterion bwyd byd-eang. Byddant yn dechrau gwerthfawrogi bod digon o fwyd ar gael ledled y byd ond nad yw llawer o bobl yn gallu cael gafael ar y bwyd hwnnw oherwydd diffyg adnoddau. Bydd dysgwyr yn trafod beth mae'n ei olygu i fod yn llwglyd ac yn dechrau meddwl am resymau pam y gallai pobl fod yn llwglyd.



## Sesiwn 2: O ble y daw ein bwyd?

- Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau ymholi drwy ofyn a chategoreiddio cwestiynau am ffotograffau sy'n gysylltiedig â bwyd. Byddant yn ymchwilio i gynnwys bag archfarchnad ac yn dechrau gwneud cysylltiadau rhyngddynt hwy eu hunain a ble mae eu bwyd yn tarddu.

## Sesiwn 3: Pwy sy'n cynhyrchu ein bwyd?

- Bydd dysgwyr yn deall bod ein bwyd yn cael ei gynhyrchu gan wahanol ffermwyr ar draws y byd. Byddant yn defnyddio delweddau i ddatblygu a herio eu rhagdybiaethau eu hunain am ffermio. Nesaf, bydd dysgwyr wedyn yn defnyddio astudiaeth achos o Malawi i ystyried rhai o'r heriau y mae ffermwyr ar raddfa fach yn eu hwynebu ac atebion i'r rhain, yn ogystal â nodi manteision posibl y gall ffermio ar raddfa fach eu cynnig i gymunedau. Yn olaf, bydd dysgwyr yn chwarae gêm nadroedd ac ysgolion i ystyried sut mae ffermwyr yn addasu i rai o'r heriau hyn.

## Sesiwn 4: Beth yw cadwyni cyflenwi byd-eang?

- Bydd dysgwyr yn dysgu beth yw cadwyn gyflenwi fyd-eang a sut y gall y gwahanol gamau a chyfranwyr effeithio ar y rhai ar y naill ben a'r llall i'r gadwyn. Byddant yn edrych ar astudiaeth achos o gynhyrchu mefus ym Moroco i ddeall sut mae cadwyni cyflenwi'n effeithio ar weithwyr mefus, sy'n fenywod yn bennaf, ac yn ystyried beth y gellid ei wneud i greu cadwyn gyflenwi decach.

## Sesiwn 5: Ydy bwyd yn deg?

- Bydd dysgwyr yn chwarae gêm efelychu "Allwch chi drechu'r system?", i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r system bwyd byd-eang a'r rhai sydd ar eu colled ac sydd ar eu hennill. Byddant yn datblygu eu hempoethi â phobl y mae'r system fwyd fyd-eang yn effeithio ar eu bywoliaeth.

## Sesiwn 6: Cymryd camau gweithredu

- Bydd dysgwyr yn archwilio ac yn trafod gwahanol gamau y gellid eu cymryd ar gyfer system fwyd decach a chynaliadwy. Yna bydd dysgwyr yn nodi camau posibl y gallent eu cymryd fel ysgol ac yn eu graddio yn ôl eu rhwyddineb a'u heffaith gymharol. Yn olaf, bydd dysgwyr yn gweithio mewn grŵp i gynllunio eu camau gweithredu ar gyfer cyfiawnder bwyd.

## Gwahaniaethu

Lle y bo'n bosibl, mae'r gweithgareddau a'r adnoddau wedi'u gwahaniaethu i ddiwallu anghenion gwahanol ddysgwyr yn y dosbarth. Gallai hyn hefyd fod yn ddefnyddiol wrth addasu rhai o'r gweithgareddau i ddiwallu anghenion dysgwyr iau a hŷn. Mae llawer o'r sesiynau hefyd yn addas ar gyfer gwahaniaethu yn ôl canlyniad. Gall rhai o'r gweithgareddau a awgrymir yn yr adrannau syniadau pellach hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer ymestyn dysgwyr mwy abl.

## Grŵp oedran

Mae'r adnoddau hyn yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr 7 i 11 oed. Fodd bynnag, gellid addasu llawer o'r gweithgareddau i'w defnyddio hefyd gyda dysgwyr iau neu hŷn.

## Amseriadau

Darperir amseroedd a awgrymir ar gyfer pob gweithgaredd. Sylwer mai brasamcan yn unig yw'r amseroedd hyn.



Her Bwyd Fyd-eang – Amlinelliad manwl o'r adnoddau

Teitl y sesiwn	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
1. Pam y mae pobl yn llwglyd?	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthfawrogi pwysigrwydd bwyd o amgylch y byd.</li> <li>Ymglyfarwyddo â gwahanol dermau sy'n gysylltiedig â phroblemau pobl sy'n llwglyd.</li> <li>Deall bod digon o fwyd i bawb yn y byd ond nad yw rhai pobl yn gallu manteisio arno.</li> <li>Dechrau ystyried achosion posibl.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y dysgwyr yn archwilio ffotograffau er mwyn gofyn a chategoreiddio cwestiynau ymholi ynghylch bwyd o amgylch y byd</li> <li>Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i ffynonellau eitemau bwyd mewn bag siopa</li> <li>Bydd y dysgwyr yn mapio gwledydd ar fap o'r byd</li> <li>Bydd y dysgwyr yn gofyn ac yn ceisio ateb cwestiynau ynghylch ble y daw eu bwyd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pam y mae bwyd yn bwysig?</li> <li>Beth yw'r gwahaniaeth rhwng bod yn llwglyd, newyn, diogelwch bwyd, llwgu a thermau allweddol eraill?</li> <li>Beth yw ystyr bod yn gydradd?</li> <li>Pam y mae pobl yn profi newyn?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li><i>Beth yw ystyr bod yn gydradd?</i></li> <li><i>1.2 Pam y mae pobl yn llwglyd?</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sioe Sleidiau A (Sesiynau 1–3): Sleidiau 2-6</li> <li>Taflen Adnoddau 1: <i>Ffeithlun Bwyd</i></li> <li>Tafleni gweithgaredd: <ol style="list-style-type: none"> <li><i>Pam y mae pobl yn llwglyd? Datganiadau</i></li> <li><i>Pam y mae pobl yn llwglyd? Achosion</i></li> </ol> </li> </ul>
2. O ble y daw ein bwyd?	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gofyn a chategoreiddio cwestiynau perthnasol er mwyn estyn gwybodaeth a dealltwriaeth o broblemau bwyd byd-eang.</li> <li>Deall bod ein cyflenwad bwyd yn deillio o bob rhan o'r byd.</li> <li>Lleoli gwledydd ar fap o'r byd.</li> <li>Cydnabod cysylltiadau rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr mewn gwahanol rannau o'r byd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd dysgwyr yn archwilio ffotograffau er mwyn gofyn a chategoreiddio cwestiynau ymholi am fwyd o amgylch y byd.</li> <li>Bydd dysgwyr yn ymchwilio i ffynonellau eitemau bwyd mewn bag siopa.</li> <li>Bydd dysgwyr yn mapio gwledydd ar fap o'r byd.</li> <li>Bydd dysgwyr yn gofyn ac yn ceisio ateb cwestiynau am ble y daw eu bwyd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pa gwestiynau y gallwn eu gofyn am y ffotograff yma?</li> <li>O ble y daw ein bwyd?</li> <li>Pam y caiff cymaint o'n bwyd ei dyfu neu ei gynhyrchu dramor?</li> <li>Ydy ein bwyd wedi bod yn fwyd 'byd-eang' ers erioed?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li><i>2.1 Bwyd o amgylch y byd</i></li> <li><i>2.2 Dadbacio'r bag archfarchnad</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sioe sleidiau A (Sesiynau 1-3): Sleidiau 7-19</li> <li>Bag archfarchnad gyda rhwng chwech ac wyth o eitemau bwyd wedi'u labelu</li> <li>Cerdyn, papur, llinyn, siswrn, pinnau bawd, beiros</li> <li>Lleiniau bwrdd neu ddarnau mawr o ddefnydd</li> <li>Atlasau</li> <li>Tafleni gweithgareddau: <ol style="list-style-type: none"> <li><i>Y byd mewn bag archfarchnad</i></li> <li><i>Mapio bag archfarchnad</i></li> </ol> </li> </ul>
2. Pwy sy'n cynhyrchu ein bwyd?	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwrando ar syniadau pobl eraill ac ymateb iddynt.</li> <li>Gwybod bod ffermio yn derm eang sy'n cynnwys gwahanol arferion.</li> <li>Deall bod ffermwyr ar raddfa fach yn wynebu sawl her wrth gynhyrchu bwyd.</li> <li>Bod yn ymwybodol o rai atebion posibl i'r heriau hyn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y dysgwyr yn herio rhai o'u rhagdybiaethau ynghylch ffermwyr a ffermio drwy archwilio ffotograffau o wahanol arferion ffermio.</li> <li>Bydd dysgwyr yn pennu rhai o'r heriau y mae cynhyrchwyr ar raddfa fach yn eu hwynebu.</li> <li>Bydd y dysgwyr yn archwilio rhai o'r ffyrdd y mae ffermwyr ar raddfa fach yn addasu i'r heriau hyn.</li> <li>Bydd y dysgwyr yn dechrau ystyried anghydraddoldeb o ran bwyd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pwy yw ffermwyr y byd?</li> <li>Beth yw ffermwr neu gynhyrchydd ar raddfa fach?</li> <li>Pa heriau y mae ffermwyr ar raddfa fach yn eu hwynebu?</li> <li>Sut y gellid goresgyn yr heriau hyn?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li><i>3.1 Ffermwyr o amgylch y byd</i></li> <li><i>3.2 Tomatos yn Malawi</i></li> <li><i>3.3 Nadroedd ac ysgolion</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sioe sleidiau A (Sesiynau 1–3): Sleidiau 20-37</li> <li>Taflen Adnoddau 1: <i>Sut y gall tomatos newid bywydau?</i></li> <li>Tafleni gweithgareddau: <ol style="list-style-type: none"> <li><i>Tomatos ym Malawi – Trefnu cardiau</i></li> <li><i>Nadroedd ac ysgolion</i></li> </ol> </li> </ul>



Teitl y sesiwn	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau	Gweithgareddau	Adnoddau
3. Beth yw cadwyni cyflenwi byd-eang?	<ul style="list-style-type: none"> <li>Deall beth yw cadwyn gyflenwi fyd-eang a'i bod yn cynnwys cyfres o gamau cysylltiedig sy'n cynnwys gwahanol bobl, cwmnïau a sefydliadau.</li> <li>Cydnabod rhai o nodweddion anghyfiawnder bwyd ac uniaethu â'r bobl y mae cadwyni cyflenwi annheg yn effeithio arnynt.</li> <li>Datblygu sgiliau cydweithio a thrafod.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd dysgwyr yn deall cysyniad cadwyn gyflenwi.</li> <li>Bydd dysgwyr yn pennu cysylltiadau o fewn y gadwyn cyflenwi mefus.</li> <li>Bydd dysgwyr yn creu fersiwn bapur o'r gadwyn gyflenwi ac yn egluro'r cysylltiadau rhwng y gwahanol bobl sy'n rhan ohoni.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Beth yw cadwyn gyflenwi fyd-eang?</li> <li>Sut y mae cadwyni cyflenwi byd-eang yn effeithio ar bobl a chymunedau?</li> <li>Beth yw swyddogaeth y defnyddiwr o fewn y gadwyn gyflenwi?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>4.1 <i>Creu cadwyn cyflenwi mefus</i></li> <li>4.2 <i>Creu cysylltiadau ar hyd y gadwyn gyflenwi</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sioe sleidiau B (Sesiynau 4–6): Sleidiau 2-6</li> <li>Taflen gweithgaredd 1: <i>Cadwyn cyflenwi mefus</i></li> <li>Taflen Adnoddau 1: <i>Creu cadwyn gyflenwi o bapur</i></li> </ul>
4. Ydy bwyd yn deg?	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bod yn ymwybodol o faterion sy'n gysylltiedig ag anghyfiawnder bwyd.</li> <li>Deall bod pŵer ac elw yn cael eu dosbarthu'n anghyfartal o fewn y gadwyn gyflenwi.</li> <li>Dechrau gwerthfawrogi heriau'r system bwyd byd-eang.</li> <li>Cymryd rhan mewn trafodaethau a chydweithio.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y dysgwyr yn disgrifio anghyfiawnder bwyd o fewn y gadwyn gyflenwi.</li> <li>Bydd y dysgwyr yn chwarae gêm efelychu i ddeall yr heriau y mae cynhyrchwyr bach yn eu hwynebu o fewn y system bwyd byd-eang.</li> <li>Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cydweithio wrth iddynt weithio fel rhan o dîm mewn gêm efelychu.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Profiadau ffermwyr ar raddfa fach o fewn y system bwyd byd-eang?</li> <li>Beth sy'n deg am y system bwyd byd-eang?</li> <li>Beth sy'n annheg am y system bwyd byd-eang?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>5.1 <i>Allech chi drechu'r system?</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sioe sleidiau B (Sesiynau 4–6): Sleidiau 7-8</li> <li>Tafleni gweithgareddau: <ol style="list-style-type: none"> <li><i>Templed cnwd</i></li> <li><i>Sefyllfaoedd grŵp</i></li> </ol> </li> </ul>
5. Cymryd Camau Gweithredu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pennu gwahanol gamau gweithredu posibl a allai gael eu cymryd er mwyn sicrhau bod y system bwyd byd eang yn fwy teg.</li> <li>Deall y bydd gwahanol gamau gweithredu yn amrywio yn ôl pa mor syml fydd eu cyflawni a'r effaith y byddant yn ei chael.</li> <li>Cymryd rhan mewn sgysiaid cydweithredol ynghylch cymryd camau gweithredu ynghylch mater.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y dysgwyr yn rhestru rhai camau gweithredu posibl a allai gael eu cymryd yn erbyn system bwyd byd-eang sy'n annheg.</li> <li>Bydd y dysgwyr yn ystyried ac yn trafnu gwahanol gamau gweithredu yn ôl pa mor syml fyddai eu cymryd a'u heffaith.</li> <li>Bydd y dysgwyr yn trafod y gwahanol gamau gweithredu y gallent eu cymryd eu hunain..</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pa gamau allai gael eu cymryd yn erbyn system bwyd byd-eang sy'n annheg?</li> <li>Pa gamau gweithredu y galleu eu cymryd?</li> <li>Pa mor hawdd fydd hi i gymryd y camau gweithredu hyn?</li> <li>Pa effaith y bydd y camau gweithredu hyn yn ei chael?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>6.1 Cymryd camau gweithredu tuag at system fwyd sy'n fwy teg</li> <li>6.2 Cymryd camau gweithredu: Beth y gallaf ei wneud?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sioe Sleidiau B (Sesiynau 4–6): Sleidiau 9-15</li> <li>Tafleni gweithgaredd: <ol style="list-style-type: none"> <li><i>Cymryd camau gweithredu</i></li> <li><i>Linell effaith</i></li> <li><i>Syniadau ar gyfer camau gweithredu</i></li> </ol> </li> </ul>



## Gwybodaeth Gefndir

Mewn byd sy'n fyd-eang, mae'r cyflenwad a'r galw am fwyd wedi arwain at sefyllfa lle mae llawer o wledydd yn allforio bwydydd mewn digonedd i farchnadoedd tramor ac eto mae pobl yn y wlad yn profi diffyg maeth. Mae hyn yn codi llawer o gwestiynau: *Pwy sy'n elwa ar hyn? Pa reolaeth sydd gan y prynwyr (y cadwyni archfarchnadoedd) dros y cynhyrchwyr? Pa rôl sydd gan ddefnyddwyr i'w chwarae yn y gadwyn gyflenwi?*

Ynghyd â chnydau allforio mwy traddodiadol, gall defnyddwyr y DU bellach brynu eitemau fel *mange-tout* o Guatemala, mangos o Dde Affrica, patalas o Ghana, tiwna o Indonesia, ffa mân o Kenya, a ffrwyth sêr o Malaysia. Er ein bod yn darparu mwy o amrywiaeth a dewis, yn ogystal â'n galluogi i fwyta ffrwythau a llysiau ffres drwy gydol y flwyddyn, nid yw presenoldeb y nwyddau hyn ar silffoedd ein harchfarchnadoedd o reidrwydd o fudd i'r bobl a'u cynhyrchodd gymaint ag y byddem yn ei feddwl. Mae llawer o gynhyrchwyr yn cael eu gadael yn methu fforddio deiet digonol neu iach eu hunain.

Ers sefydlu Sefydliad Masnach y Byd yn 1995, mae globaleiddio wedi arwain at wledydd yn y De yn cael eu hintegreiddio'n fwy i'r economi fyd-eang, gan symud eu cynhyrchiant tuag at gnydau allforio er mwyn ennill arian cyfred tramor i brynu nwyddau a fewnforiwyd. Yn Bangladesh, er enghraifft, mae ffermwyr ar raddfa fach a arferai dyfu reis a chnydau cynhaliaeth eraill wedi cael eu symud oddi ar eu tir i wneud lle i ffermydd perdys anghynaliadwy. Mae hyn wedi arwain at ddifrod ecolegol yn ogystal â dadleoli pobl, yn aml i ardaloedd trefol. Yn Bangladesh, nid yw llawer o ffermwyr ar raddfa fach yn berchen ar y tir y maent yn ei ffermio sy'n eu gwneud yn fwyfwy agored i niwed.

Gall symud i allforion ddod ag amrywiaeth o heriau i gynhyrchwyr yn enwedig ffermwyr ar raddfa fach. Mae ansicrwydd prisiau ar y farchnad fyd-eang ynghyd â pholisïau'r llywodraeth yn creu diffyg rheolaeth i ffermwyr ar raddfa fach y mae angen iddynt yn aml ymdopi'n aml â bygythiadau cynyddol o newid yn yr hinsawdd. Yn rhy aml o lawer, nid yw cnydau arian parod o'r fath yn cael pris digonol i'r tyfwyr, gan fod y fasnach mewn bwydydd allforio yn cael ei rheoli gan wledydd cyfosod y rhan ogleddol y byd. Er bod y system fasnachu fyd-eang yn gweithredu mewn marchnad rydd sy'n cael ei honni, mae allforwyr o ran ddeheuol y byd yn wynebu casgliad brawychus o rwystrau tariff (trethi) a rhwystrau nad ydynt yn brisiau tariff (fel cwtâu) sy'n gwneud eu cynnyrch yn ddrutach neu'n cyfyngu ar y swm y caniateir iddynt ei werthu yn rhan ogleddol y byd. Cedwir prisiau'n artiffisial o isel gan gymorthdaliadau i amaethyddiaeth mewn gwledydd incwm uchel, OECD (Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd), sy'n ei gwneud yn anos i ffermwyr yn rhan ddeheuol y byd ennill bywoliaeth dda.

Yn ogystal, ni all ffermwyr ar raddfa fach yn y De bennu eu telerau eu hunain ar farchnad y byd, a herio grym y cwmnïau a'r cadwyni archfarchnadoedd sy'n prynu eu cynnyrch. O'r pris a dalwn am jar o goffi yn yr archfarchnad, bydd llai na 10 y cant yn mynd yn ôl at y tyfwr neu'r cynhyrchydd. Bydd y rhan fwyaf o'r elw yn cael ei wneud gan y manwerthwr a'r cyfryngwyr sydd wedi prosesu, cludo neu becynnu'r cynnyrch. Yn ogystal, gall y ffermwyr a'r cynhyrchwyr ar ddechrau'r gadwyn gyflenwi brofi amodau gwaith gwael a diffyg hawliau gweithwyr.

Cydnabyddir maint yr her i greu system fwyd deg a chlir fyd-eang gan Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig 2015:

- Nod 2: Dim newyn. Sicrhau nad oes unrhyw un llwglyd, sicrhau diogelwch bwyd a gwell maeth a hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy.
- Nod 8: Gwaith teilwng a thwf economaidd. Hyrwyddo twf economaidd parhaus, cynhwysol a chynaliadwy, cyflogaeth lawn a chynhyrchiol a gwaith gweddus i bawb.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler [sustainabledevelopment.un.org/sdgs](https://sustainabledevelopment.un.org/sdgs)



## Dolenni ac Adnoddau defnyddiol eraill

- Defnyddiwch adnoddau addysgu Oxfam i gael gwybod mwy am faterion masnach deg a bwyd byd-eang. Mae adnoddau defnyddiol yn cynnwys:
  - **Bananas**

Wedi'i ddiweddarau gyda ffeithiau, ffotograffau a straeon newydd, mae'r adnodd addysg hwn gan Oxfam yn cefnogi dysgwyr i ddysgu mwy am Fasnach Deg a meddwl yn feirniadol am rai o'r heriau y mae ffermwyr banana yn eu hwynebu.

[www.oxfam.org.uk/education/resources/go-bananas](http://www.oxfam.org.uk/education/resources/go-bananas)
  - **Archwilio Masnach Deg**

Archwiliwch y berthynas rhwng ffermwyr, busnesau a defnyddwyr. Trafodwch sut y gellid gwneud masnach fwyd yn decach a phwy sy'n gyfrifol am weithredu.

[www.oxfam.org.uk/education/resources/explore-fairtrade](http://www.oxfam.org.uk/education/resources/explore-fairtrade)
- Dysgwch fwy am Ymgyrch *Behind the Barcodes* Oxfam sy'n galw ar archfarchnadoedd i gymryd camau i wella amodau gwaith a bywydau ffermwyr a chynhyrchwyr ar raddfa fach: [oxfamapps.org/behindthebarcodes/?intcmp=HPWWLWP\\_grid\\_BehindBC](http://oxfamapps.org/behindthebarcodes/?intcmp=HPWWLWP_grid_BehindBC)
- Y Sefydliad Masnach Deg: [www.fairtrade.org.uk/schools](http://www.fairtrade.org.uk/schools)
- Gwasanaeth Addysg y Byd am fod yn Llwglyd: [www.worldhunger.org/](http://www.worldhunger.org/)
- Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig: [www.fao.org/home/en/](http://www.fao.org/home/en/)
- Rhaglen Bwyd y Byd: [www1.wfp.org/zero-hunger](http://www1.wfp.org/zero-hunger)
- Plattform Gwybodaeth y Cenhedloedd Unedig am Ddatblygiad Cynaliadwy: [sustainabledevelopment.un.org/sdgs](http://sustainabledevelopment.un.org/sdgs)
- *Freedom from Hunger*: [www.freedomfromhunger.org](http://www.freedomfromhunger.org)
- R. Willoughby a T. Gore (2018). *Ripe for change – Ending human suffering in supermarket supply chains*. Oxfam International.  
[www.oxfam.org/en/research/ripe-change](http://www.oxfam.org/en/research/ripe-change)
- R. Wilshaw (2014). *Steps Towards a Living Wage in Global Supply Chains*. Oxfam International. [policy-practice.oxfam.org.uk/publications/steps-towards-a-living-wage-in-global-supply-chains-336623](http://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/steps-towards-a-living-wage-in-global-supply-chains-336623)
- R. Wilshaw *et al.* (2015). *In Work but Trapped in Poverty: A summary of five studies conducted by Oxfam, with updates on progress along the road to a living wage*. Oxfam International. [policy-practice.oxfam.org.uk/publications/in-work-but-trapped-in-poverty-a-summary-of-five-studies-conducted-by-oxfam-wit-578815](http://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/in-work-but-trapped-in-poverty-a-summary-of-five-studies-conducted-by-oxfam-wit-578815)

## Dinasyddiaeth Fyd-eang

Adnodd i athrawon disgyblion 7-11 oed am ddinasyddiaeth fyd-eang yw'r *Her Bwyd Fyd-eang*. Mae Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn fethodoleg sy'n anelu at helpu pobl ifanc i ddatblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar. Mae Oxfam yn awgrymu dull dysgu – meddwl – gweithredu, er mwyn rhoi cyfle i'r bobl ifanc ddysgu am faterion, meddwl yn feirniadol am ddulliau i'w datrys, a gweithredu fel dinasyddion byd-eang cyfrifol. Gallai'r camau gweithredu gynnwys darganfod rhagor o wybodaeth neu feddwl yn ddyfnach am fater. Gallent hefyd olygu sicrhau bod eraill yn fwy ymwybodol o fater, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian neu ymgyrchu penodol. Am ragor o wybodaeth, gweler: [www.oxfam.org.uk/education/who-we-are/what-is-global-citizenship](http://www.oxfam.org.uk/education/who-we-are/what-is-global-citizenship)

Dyma elfennau allweddol dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol:

Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Gwerthoedd ac agweddau
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfiawnder cymdeithasol a thegwch</li> <li>Hunaniaeth ac amrywiaeth</li> <li>Globaleiddio a rhyngddibyniaeth</li> <li>Datblygu cynaliadwy</li> <li>Heddwch a gwrthdaro</li> <li>Hawliau dynol</li> <li>Pŵer a llywodraethu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Meddwl mewn modd creadigol a beirniadol</li> <li>Empathi</li> <li>Hunanymwybyddiaeth a myfyrdod</li> <li>Cyfathrebu</li> <li>Cydweithredu a datrys gwrthdaro</li> <li>Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd</li> <li>Camau gweithredu gwybodus a myfyriol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch</li> <li>Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch</li> <li>Parch at bobl a hawliau dynol</li> <li>Rhoi gwerth ar amrywiaeth</li> <li>Pryder am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy</li> <li>Ymrwymiad i gyfranogiad a chynhwysiant</li> <li>Y gred y gall pobl sicrhau newid</li> </ul>

Un ffordd ddelfrydol o alluogi dysgwyr i rannu eu gwaith gyda chynulleidfa ehangach yw anfon eu deunyddiau at Addysg Oxfam: [education@oxfam.org.uk](mailto:education@oxfam.org.uk). Byddwn yn gallu cynnwys detholiad ar ein gwefan fel y gall ysgolion eraill eu gweld.

Mae'r deunyddiau hyn yn seiliedig ar syniadau, cynnwys a gweithgareddau o adnoddau blaenorol Addysg Oxfam ynghylch materion bwyd byd-eang. Mae'r deunyddiau blaenorol bellach wedi'u harchifo ac wedi'u dileu o wefan Addysg Oxfam. Cysylltwch â ni os ydych yn chwilio am adnodd penodol gan Oxfam ac nad ydych bellach yn gallu dod o hyd iddo: [education@oxfam.org.uk](mailto:education@oxfam.org.uk).

I gael rhagor o wybodaeth am Addysg Oxfam, gan gynnwys amrywiaeth eang o adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, gweler: [www.oxfam.org.uk/education/](http://www.oxfam.org.uk/education/)

## Cydnabyddiaethau

Ni fyddai'r cyhoeddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth a chyfraniadau gan nifer o staff Oxfam.

## Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

